Papur y Bwrdd

3 Ebrill 2014

Teitl y Papur:	**Diweddariad ar Her y Siarter Datblygu Cynaliadwy 2014-15**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B O 30.14
Noddwyd y Papur gan: **Awduron y Papur yw:**	Ceri Davies **Ruth Tipping, Paul Subacchi a Mark Hughes**

Pwrpas y Papur:	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am yr her y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei derbyn wrth ymrwymo i Siarter Datblygu Cynaliadwy 2014-15.
Argymhelliad:	Cymeradwyo her y Siarter Datblygu Cynaliadwy.
Penderfyniad:	Er gwybodaeth yn unig

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc.	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae'r her hon yn golygu y byddwn yn trefnu ein gweithgareddau i gyd-fynd â'n hadnoddau, er mwyn i ni gyflawni ein hamcanion yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a chynaliadwy. Bydd manteision amgylcheddol byrdymor a hirdymor i hynny yn y pen draw, gan gynnwys ein rheolaeth amgylcheddol fewnol ein hunain. **Effaith ar yr Economi**: Yr her yw sicrhau bod rheoli perfformiad corfforaethol yn cyd-fynd yn well â gweithgarwch rheoli arian ac adnoddau a gallu adrodd mewn ffordd integredig ar ganlyniadau'r sefydliad. Disgwylir effeithiau economaidd cadarnhaol yn fewnol ac yn allanol. Rhagwelwn y bydd costau'n cael eu harbed yn fewnol drwy ddyrannu adnoddau'n well a bydd y penderfyniadau a wnawn yn defnyddio'n hadnoddau er mwyn hybu i'r eithaf eu canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol yn allanol. **Effaith ar y Gymuned**:

	Drwy sicrhau bod rheoli adnoddau a pherfformiad corfforaethol yn cyd-fynd yn well â'i gilydd, a thrwy allu adrodd mewn ffordd fwy integredig ar ein penderfyniadau a'n canlyniadau, byddwn mewn sefyllfa i ddangos yn well ymhle ac ym mha fodd yr ydym wedi cael effaith ar gymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: Un o ganlyniadau allweddol yr her hon yw dysgu am realiti newid sefydliadol a sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy. Byddwn yn rhannu'r hyn yr ydym ni ac eraill yn ei ddysgu ag aelodau ehangach y Siarter ac âr sector cyhoeddus er mwyn helpu Cymru i fod yn wlad fwy cynaliadwy drwy wneud penderfyniadau a gwneud gwaith rheoli perfformiad ac adrodd ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Pwnc trafod

1. Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr her y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei derbyn wrth ymrwymo i Siarter Datblygu Cynaliadwy 2014-15. Roedd y diweddariad hwn yn un o gamau gweithredu'r papur ar Fil Cenedlaethau'r Dyfodol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Chwefror.

Crynodeb

2. Nodir yn Atodiad 3 yr "Ymrwymiad" a wnawn wrth lofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy. Wrth wneud yr ymrwymiad hwn, mae angen i ni hefyd gynnig gweithgaredd y byddwn yn ei wneud yn ystod y flwyddyn sy'n mynd â ni gam yn nes at gyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir. Dyma'r "Her" flynyddol. Wrth ymrwymo i Her Datblygu Cynaliadwy 2014-15 dyma fydd her Cyfoeth Naturiol Cymru: Sefydlu dull o Reoli Perfformiad, sy'n cyd-fynd â'n Hadnoddau (Pobl ac Arian), a fydd yn arwain yn y pen draw at Adrodd Integredig i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn ategu'r symudiad yn y sefydliad tuag at sicrhau mai datblygu cynaliadwy fydd ei egwyddor drefniadol ganolog, sy'n un o ofynion allweddol y Siarter Datblygu Cynaliadwy a chynigion Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cefndir

3. Wrth i ni sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru rydym yn datblygu ein systemau a'n prosesau mewnol. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth ar Ddatblygu Cynaliadwy: Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n briodol felly i ni fynd ati i geisio sicrhau bod ein prosesau'n cyd-fynd â gofynion arfaethedig y ddeddfwriaeth honno.

4. Sefydlwyd y Siarter Datblygu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru i helpu pob sector – y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector – i gyfrannu at roi ar waith y Cynllun Datblygu Cynaliadwy "Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned" ac ymgorffori datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefniadol ganolog. Mae'r Siarter

yn gyfle rhwydweithiol i rannu'r hyn a ddysgir am ymgorffori datblygu cynaliadwy.

5. Yn ystod 2014-15 bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n dechrau ymgorffori Fframwaith Perfformiad Corfforaethol, yn unol ag atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn cynnwys: olrhain cyflawni amcanion gan ddefnyddio dangosyddion, a thargedu darpariaeth drwy ddangosfwrdd corfforaethol. Bydd y rhain yn cyd-fynd â phrosesau priodol rheoli risg, cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau.

6. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn dechrau ymchwilio yn ystod 2014-15 i'r hyn y bydd ei angen er mwyn rhoi Adrodd Integredig ar waith. Yr adran Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol fydd yn gwneud hyn. Byddai Adrodd Integredig yn cael ei roi ar waith yn ein busnes wedyn dros y blynyddoedd nesaf.

7. Y gweithgareddau hyn fydd sylfaen yr her y byddwn yn ei chyflwyno wrth lofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy 2014-15. Dyma ffordd gymharol newydd o weithio i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a bydd y gwersi a ddysgwn wrth roi'r ymagwedd hon ar waith yn amhrisiadwy i eraill ar eu siwrnai i ymgorffori datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefniadol ganolog yn eu gwaith. Drwy dderbyn hynny'n her o dan y Siarter Datblygu Cynaliadwy, rydym yn ymrwymo i rannu'r hyn a ddysgwn ac i weithio gydag eraill yn y cyfnod pontio hwn.

8. Yn rhan o'r her, bydd yr adran Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yn gweithio gyda'r tîm Cyllid wrth ddatblygu a rhoi ar waith system newydd Cynllunio Adnoddau Menter Cyllid ac Adnoddau Dynol, er mwyn gwneud yn fawr o unrhyw gyfleoedd i sicrhau bod perfformiad yn cyd-fynd ag adnoddau a sicrhau y gellir llywio adroddiadau integredig yn y dyfodol. Bydd y system Cynllunio Adnoddau Menter wrth wraidd ein prosesau rheoli a chyfrifo ariannol.

9. Wrth bennu sut y bydd Cynllunio Adnoddau Menter yn cefnogi busnes Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd yn bwysig manteisio ar y cyfle i integreiddio adrodd am gynaliadwyedd o'r cychwyn cyntaf. Os na wnawn hynny gallai gymryd mwy o amser i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgorffori adrodd integredig yn ei fusnes, neu efallai'n wir y bydd yn rhaid iddo droi at systemau llaw aneffeithlon.

10. Bydd gweithio gydag eraill yn rhan o'r her. Bwriadwn weithio gyda Dinas a Sir Abertawe ac Ystadau'r Goron, sydd eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith ar gynaliadwyedd ac Adrodd Integredig. Bydd hynny'n fodd o sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, drwy ddeall ac adeiladu ar brofiad a gwersi eraill.

11. Un o'r prif heriau a wynebai Cyngor Abertawe oedd sicrhau bod iaith yr adran Gyllid yn gydnaws ag iaith cynaliadwyedd, oherwydd bod ei system gyfrifo wedi bod ar waith ers peth amser ac wedi'i ddatblygu cyn i gynaliadwyedd ddod yn rhan greiddiol o'i fusnes. Roedd yn rhaid i dîm cynaliadwyedd Abertawe gyfleu'r hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni i'r busnes, ond roedd yr iaith a oedd yn cael ei defnyddio weithiau'n peri dryswch. Wedi iddynt ddod â'r ddwy swyddogaeth ynghyd dechreuodd pethau symud yn gynt. I Cyfoeth Naturiol Cymru mae cydblethu'r systemau cyllid, penderfyniadau busnes ehangach a rheoli perfformiad corfforaethol yn un o'r pethau sylfaenol y mae'n rhaid ei wneud i sicrhau ein bod yn cyfrannu hyd eithaf ein gallu i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

12. Cyflawnir yr her hon felly ar y cyd gan yr Adran Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol a'r Adran Gyllid.

13. Caiff yr hyn a ddysgir drwy weithio ar yr her ei rhannu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, a hefyd â chymuned ehangach rhwydwaith y Siarter Datblygu Cynaliadwy.

14. Mae'r her hon yn cyd-fynd yn dda â chynigion Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, mae perfformiad yn cyd-fynd â'r nodau arfaethedig a gwneud penderfyniadau'n cyd-fynd ag adnoddau'r sefydliad gan gynnwys cyllidebau, a bydd hynny'n golygu y gallwn roi adrodd integredig ar waith. (Rhoddir manylion y nodau arfaethedig yn Atodiad 2.)

Y Camau Nesaf

15. **O ran yr Her:**

- Sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer perfformiad corfforaethol yn cyd-fynd ag atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, ac yn bwydo datblygiad y system Cynllunio Adnoddau Menter.

- Ymgysylltu â'r busnes yn ehangach fel y bo'n briodol i ddatblygu meddylfryd a gofynion Adrodd Integredig.

- Sefydlu perthynas waith briodol ag Ystâd y Goron a Chyngor Dinas a Sir Abertawe er mwyn sicrhau ein bod yn elwa ar eu profiadau hyd yma, ac y gallwn rannu'r hyn a ddysgir a chydweithio lle y bo hynny'n briodol.

- Cofnodi'r hyn a ddysgir er mwyn ei rannu â rhwydwaith ehangach y Siarter.

16. **O ran y Siarter Datblygu Cynaliadwy:**

- Ymrwymo'n ffurfiol i'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a manylu ar yr her.

Risgiau

17. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni addasu ein prosesau neu ein systemau, neu sefydlu systemau monitro ac adrodd ychwanegol, a gallai'r rhain fod yn rhai a weithredir â llaw, os na ddatblygwn systemau newydd megis Cynllunio Adnoddau Menter y mae datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori ynddynt a chydymffurfio â chynigion Bil Cenedlaethau'r Dyfodol o'r cychwyn cyntaf.

18. Mae'n bosib y byddwn yn peryglu ein henw da os na wireddwn ein hymrwymiad, o fewn y sefydliad, ond yn enwedig wrth gydweithio ag eraill. Bydd yn bwysig neilltuo adnoddau priodol a rhoi blaenoriaeth i'r her.

19. Os na weithiwn gydag eraill i rannu'r hyn a ddysgir a'r wybodaeth am sefydlu datblygu cynaliadwy'n egwyddor drefniadol ganolog i'r sefydliad, byddwn yn llai effeithlon wrth ei roi ar waith ac ni fydd yr hyn a ddysgwn yn helpu eraill i wneud hyn yn fwy effeithlon.

20. Gallem fethu â manteisio ar y cyfle y mae'r Siarter a'r her yn ei gynnig i hybu proffil a dealltwriaeth o swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a'n cyfraniad i Gymru gynaliadwy.

Y Goblygiadau Ariannol

21. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu prosesau Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'n faich ychwanegol.

22. Yr hyn a allai gostio yw'r amser a'r adnoddau ychwanegol i ddwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd ac adrodd yn ôl i'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.

23. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o gostau bach ychwanegol yn deillio o weithio gyda'n partneriaid o ran costau teithio, amser ac yn y blaen, a byddai hynny'n rhan o'r gwaith y bydd angen ei wneud i sicrhau bod gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyd-fynd â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

24. Os na ddatblygwn systemau newydd megis Cynllunio Adnoddau Menter sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy a chydymffurfio â chynigion Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n bosib y bydd costau ychwanegol yn codi yn nes ymlaen er mwyn newid y systemau hyn, neu er mwyn sefydlu systemau monitro ac adrodd ychwanegol.

Cyfathrebu

25. Mae angen rhoi gwybod i'r holl staff ac i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am ein penderfyniad i fod yn rhan o'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a'r ymrwymiad a ddaw yn sgil hynny, a rhoi gwybod iddynt hefyd am y gweithgarwch a ddewiswyd i gyflawni ein her flynyddol.

26. Bydd yn rhaid i hyn fod yn gwbl glir fel y bo'n briodol yng nghynlluniau gwaith ac amcanion personol y timau a'r unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynorthwyo i gyflawni'r her.

27. Bydd angen i ni roi adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd i Rwydwaith y Siarter ddechrau 2015.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

28. Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. O ran y prosesau a roddir ar waith yn rhan o'r her hon i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ac yn adrodd ar berfformiad ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy, bydd angen ystyried materion cydraddoldeb pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ac yn rhoi hyn ar waith.

Mynegai'r Atodiadau

Atodiad 1: Dewisiadau lefel uchel ar gyfer yr Her a gynigiwyd yn EDT mis Ionawr

Atodiad 2: Nodau arfaethedig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

Atodiad 1 – Dewisiadau lefel uchel ar gyfer yr Her a gynigiwyd yn EDT mis Ionawr.

- Cydweithio i symud tuag at adrodd integredig neu adrodd ar gynaliadwyedd drwy Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol, gyda sefydliadau megis Accounting for Sustainability, Price Waterhouse Coopers, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill sydd wedi llofnodi'r Siarter ac/neu aelodau o is-grŵp cynaliadwyedd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn datblygu a rhannu'r hyn a ddysgir ynghylch symud tuag at adrodd mwy integredig.
- Cydweithio ar ddangosyddion perfformiad datblygu cynaliadwy, â Llywodraeth Cymru ac eraill sydd wedi llofnodi'r Siarter. Efallai mai datblygu'r system rheoli Adnoddau Dynol a Chyllid "Agresso" fyddai'r ffordd orau o wneud y gwaith hwn a dwyn ynghyd ofynion perfformiad a monitro datblygu cynaliadwy ym mhob rhan o'r busnes a chyda phartneriaid.
- Dysgu o'r cynlluniau peilot Ecosystemau/NRMP ar ymgorffori datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau, neu ganolbwyntio ar elfen benodol megis ymgysylltu a gweithio ar draws y busnes gydag eraill i edrych ar fodelau ymgysylltu e.e. WFD i ddeall ac i ddatblygu model i Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy.
- Cymalau cadwyn gyflenwi a budd cymunedol Adeiladu Cynaliadwy. Gweithgarwch wedi'i ddiffinio'n dynnach a fyddai'n cyflwyno dysgu i rannau eraill o'r busnes a sefydliadau eraill a chyda hwy.
- Gwaith â phwyslais penodol ar sut y gall Archwilio a Chraffu sicrhau bod y Bwrdd ac EDT yn gwneud penderfyniadau ar sail egwyddorion datblygu cynaliadwy.
- Datblygu rhwydwaith cymuned ymarfer/dysgu yn Cyfoeth Naturiol Cymru (adeiladu ar gynllun peilot Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) i ymgorffori dealltwriaeth a dysgu am ddatblygu cynaliadwy yn y sefydliad (fel y nodir yn yr ymrwymiad y mae pawb sy'n llofnodi'n ei wneud).

Atodiad 2: Nodau arfaethedig Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

LLYWODRAETH CYMRU – NODAU ARFAETHEDIG BIL CENEDLAETHAU'R DYFODOL

"Rydym wedi datblygu nodau drafft arfaethedig i hwyluso'r drafodaeth am y Gymru a garem erbyn 2050:

- Mae Cymru'n llewyrchus ac yn arloesol
- Mae Cymru'n wlad decach
- Nid yw Cymru'n defnyddio mwy na'i rhan deg o adnoddau naturiol
- Mae pobl Cymru yn iachach
- Mae Cymunedau ledled Cymru yn fwy diogel, yn fwy cydlynol ac yn fwy cydnerth
- Mae pobl Cymru yn cymryd rhan yn ein diwylliant, sy'n perthyn i ni i gyd, gydag iaith Gymraeg sy'n ffynnu

Byddwn yn mesur y cynnydd a wnawn ar y cyd tuag at gyflawni'r nodau."

Atodiad 3: Ein Hymrwymiad wrth lofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy

Dyma'r "Ymrwymiad" y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei wneud:

"Rydym yn ymrwymo i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol o ran sut byddwn yn gwneud penderfyniadau a chyflawni ein gwaith. Mae hyn yn golygu y byddwn:

• Yn glir ynghylch ein rôl, ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiadau o ran datblygu cynaliadwy;
• Yn cynnig arweiniad clir ar gyfer datblygu cynaliadwy, yn ein sefydliadau ac i'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw;
• Yn hyrwyddo gwelliant parhaus fel y byddwn yn parhau i leihau effaith amgylcheddol ein holl weithgareddau;
• Yn ymgorffori datblygu cynaliadwy yn ein holl benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau ariannol;
• Yn ymdrechu i fod yn batrwm o sefydliad, i arwain ac ysbrydoli eraill i weithredu.

Rwyf wedi darllen y Cymorth a'r Arweiniad [3 cham ac Egwyddorion Ategol] a chytunwn i arddangos ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy drwy:

• Rannu enghreifftiau o'r ffordd rydym yn ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylchedd, ac yn hyrwyddo lles yn ein penderfyniadau;
• Dangos sut rydym yn hyrwyddo lles ein staff a'n gweithwyr;
• Arddangos ein meddylfryd a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a rôl ein sefydliad yn hynny;
• Adrodd ar ein cynnydd yn ôl dangosyddion datblygu cynaliadwy;
• Rhoi enghreifftiau o'r gwaith a wnaethom i hyrwyddo cynaliadwyedd yng Nghymru.

http://www.sd-charter.net/